



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylchlythyr yr Hydref 2025 Autumn Newsletter 2025



Tymor yr Hydref 2025

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen. Mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.

Autumn Term 2025

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it. Please feel free to share it with colleagues and friends.

Ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg

Bydd ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg yn cael ei chynnal eleni o 24 Tachwedd i 5 Rhagfyr. Nod yr ymgyrch yw annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd, yn y gwaith, gyda busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, wrth chwarae, yn yr ysgol – ac mewn unrhyw sefyllfa.

Byddwn hefyd yn dathlu ugain mlynedd o gynllun laith Gwaith, y bathodyn bach oren hwnnw sydd bellach mor adnabyddus ac yn nodi fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae pecyn o adnoddau parod ar gael, a chadwch olwg am ffilmiau gan ein cefnogwyr. Chwiliwch am #DefnyddiaDyGymraeg i weld beth mae pawb yn ei wneud – a chofiwch rannu!



Defnyddia Dy Gymraeg (Use Your Welsh) campaign

The Defnyddia Dy Gymraeg campaign will run this year from 24 November to 5 December. The aim of the campaign is to encourage people to use their Welsh every day – at work, with businesses, public services, while playing at school – and in any situation.


We will also celebrate twenty years of the laith Gwaith scheme, that little orange badge which is now so well-known and indicates that a Welsh-language service is available. A ready-made resource pack is available and keep an eye out for videos from our supporters. Search for #DefnyddiaDyGymraeg to see what everyone is doing – and remember to share!

Polisi deallusrwydd artiffisial Artificial intelligence policy

Mae deallusrwydd artiffisial yn rhan annatod o'n bywydau. Mae'n cynnig cyfleoedd unigryw i wella gwasanaethau, ac i sicrhau bod yr iaith yn parhau i fod yn berthnasol ac yn fyw. Rydym wedi cyhoeddi polisi ar y defnydd ohono gan sefydliadau sydd yn dod o dan safonau'r Gymraeg er mwyn iddo

gael ei ddefnyddio mewn modd sy'n parchu ac yn hyrwyddo ein hiaith a'n diwylliant. Ein gobaith yw y bydd cyhoeddi'r polisi hwn yn cynorthwyo i wneud hynny yn effeithiol.

Darllenwch yn llawn drwy [ddilyn y ddolen hon i'n gwefan](#).



Artificial intelligence is an integral part of our lives. It offers unique opportunities to improve services and ensure that the language remains relevant and alive. We have published a policy on its use by organisations that fall under the Welsh language standards so that it is used in

a way that respects and promotes our language and culture. Our hope is that publishing this policy will help achieve that effectively.

Read the [full policy](#) by following the link to our website.

Maniffesto etholiad 2026

Wrth i ni edrych ymlaen at etholiad Senedd Cymru 2026 rydym yn cyhoeddi cyfres o bodlediadau sydd yn amlinellu ein galwadau maniffesto ac yn annog pleidiau i'w hystyried. Yn y podlediad cyntaf mae Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, yn sgwrsio gyda Dr Hanna Hopwood ac yn egluro'r rhesymau dros y galwadau. Gallwch ddarllen mwy am y maniffesto a gwrandao ar y podlediad drwy [ddilyn y ddolen hon](#).



Election manifesto 2026

As we look ahead to the 2026 Senedd Cymru election, we are publishing a series of podcasts outlining our manifesto calls and encouraging parties to consider them. In the first podcast, Efa Gruffudd Jones, the Welsh Language Commissioner, talks with Dr Hanna Hopwood and explains the reasons behind the calls. You can read more about the [manifesto and listen to the podcast](#) by following the link.



Cynhadledd rhannu arferion da

Ar 18 Tachwedd cynhaliwyd cynhadledd yn Wrecsam i roi sylw i arferion da o safbwynt y Gymraeg yn y gweithle. Yn ystod y dydd cafwyd cyflwyniadau a sgwrsiau gan gynrychiolwyr o amrywiol sefydliadau yn y sector gyhoeddus, sector breifat a'r trydydd sector. Roedd yn gyfle i rannu profiadau, rhwydweithio a dysgu gwersi i'r dyfodol. Diolch i bawb a fynychodd ac a gyfrannodd.



Good practice conference

On 18 November, a conference was held in Wrexham to highlight good practices regarding Welsh in the workplace. During the day, there were presentations and discussions from representatives of various organisations in the public, private, and third sectors. It was an opportunity to share experiences, network, and learn lessons for the future. Thank you to everyone who attended and contributed.



Cymraeg yn y gweithle

Mae gan weithleoedd rôl arwyddocaol i'w chwarae i wireddu nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr. I gefnogi hyn, rydym wedi datblygu cyfres o fodelau polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae'r modelau hyn yn cynnig strwythur i sefydliadau ddatblygu polisïau uchelgeisiol ac effeithiol, gan eu helpu i symud ar hyd continwrm o ddefnydd iaith – o'r sylfaenol i'r arloesol.

Gallwch weld y [pecyn modelau polisi](#) defnydd mewnol ar ein gwefan.

Mae Carys Edwards, Swyddog Hyrwyddo Cydymffurfiaeth, wedi paratoi [blog](#) sydd i'w weld ar ein gwefan.

Welsh in the workplace

Workplaces have a significant role to play in achieving the Welsh Government's goal of creating a million speakers. To support this, we have developed a series of internal Welsh language use policy models. These models provide a structure for organisations to develop ambitious and effective policies, helping them move along a continuum of language use –from basic to innovative.

You can view the [internal use policy model pack](#) on our website.

Carys Edwards, Compliance Promotion Officer, has prepared a [blog](#) which can be seen on our website.





Adroddiad Blynyddol 2024-25

Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf Comisiynydd y Gymraeg bellach wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w [ddarllen yma](#). Mae'r adroddiad yn gyfle i edrych yn ôl ar ein gwaith a'i effaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cafwyd cyfle i drafod hwn a'n gwaith yn gyffredinol wrth i ni ymddangos gerbron Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru yn ddiweddar. Gallwch wyllo'r drafodaeth drwy ddilyn y ddolen [hon](#).

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan [comisiynyddygymraeg.cymru](#) neu dilynwch ni ar Facebook, Instagram a LinkedIn ac os am anfon neges atom y cyfeiriad e-bost yw [cyfathrebu@cyg-wlc.cymru](#)



Annual Report 2024-25

The latest [Annual Report](#) from the Welsh Language Commissioner has now been published and is available to read here. The report is an opportunity to look back at our work and its impact over the past year.

We also had the opportunity to discuss this and our work in general when we appeared before the Senedd's Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee recently. You can watch the discussion by following this [link](#).

For more information about our work please visit our website: [welshlanguagecommissioner.wales](#) or follow us on Facebook, Instagram and LinkedIn and if you want to get in touch e-mail us on: [cyfathrebu@cyg-wlc.wales](#)





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner